NEWSPLAN (CYMRU)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru/The National Library of Wales
Aberystwyth Ceredigion SY23 3BU
Tel: (01970) 632800 Fax (01970) 615709

AROLWG NEWSPLAN (CYMRU) O DDEFNYDD PAPURAU NEWYDD, 2002

1. Rhagymadrodd

Wrth gytuno i ariannu project Newsplan 2000, gosododd Cronfa Loteri'r Dreftadaeth yr amod y dylai pob ardal o Newsplan wneud arolwg o'r defnydd o bapurau newydd cyn ac ar ôl y project. O fewn Cymru, cytunodd pymtheg llyfrgell neu awdurdod llyfrgell i gymryd rhan yn yr arolwg, a gofynnwyd iddynt redeg yr arolwg am gyfnod o wythnos o leiaf. Erbyn y dyddiad cau (28 Mawrth 2002) derbyniwyd 246 o holiaduron wedi'u cwblhau oddi wrth deg awdurdod.

Gofynnwyd i ddefnyddwyr roi tic ym mhob bocs oedd yn gymwys iddynt hwy. Isod ceir crynodeb o gyfanswm yr ymatebion ac yna sylwadau ar y canlyniadau, lle rhoddir yr ymatebion fel canran o'r cyfanswm.

2. Ymatebion i'r arolwg

Cyfanswm y ffurflenni a dderbyniwyd erbyn 28 Mawrth 2002: 246

2.1 Pa mor bell bu'n rhaid i chi ddod i ddefnyddio'r papurau newydd?

189	llai na 20 milltir	11	dros 100 milltir
42	20-100 milltir	3	o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig

2.2 Pa fath o bapurau a ydych yn eu defnyddio?

180	papurau lleol	54	papurau'r Deyrnas Unedig
70	papurau Cymreig yn Saesneg	8	papurau gyda'r nos
27	papurau Cymraeg eu hiaith	7	papurau dydd Sul
8	eraill		

2.3 Beth yw oed y papurau newydd yr ydych yn eu darllen?

110	hyd at 20 oed	80	50-100 oed
57	20-50 oed	45	dros 100 oed

2.4 Pa wybodaeth yr ydych yn chwilio amdano?

64	hanes teulu	33	chwaraeon	24	trosedd a chyfraith
93	hanes lleol	27	lluniau	29	busnes ac arian
12	hanes tŷ	20	hysbysebion	43	gwleidyddiaeth
40	ysgrifau coffa	32	eraill		

2.5 Beth rydych yn bwriadu ei wneud gyda'r wybodaeth?

151	diddordeb bersonol neu deuluol yn unig	37	defnyddio mewn cyhoeddiad
42	gwybodaeth ar gyfer rhywun arall	12	addysgol (ee. project ysgol)
26	defnyddio mewn sgwrs neu ddarlith	33	gwaith ymchwil academaidd

2.6 Pa mor aml y byddwch yn defnyddio hen bapurau newydd?

30	dyma'r tro cyntaf – dim cynlluniau pellach	70	defnydd achlysurol
41	dyma'r tro cyntaf – ond nid y tro olaf	66	defnyddiwr cyson

2.7 Pa mor hawdd yw hi i ddefnyddio'r papurau newydd?

134	syml	9	anodd
84	weddol hawdd	15	blinedig a diflas

2.8 Ydych chi wedi llwyddo i gael hyd i'r hyn oedd mewn golwg gennych?

113	do, yr union beth	18	naddo
101	do, i ryw raddau		

2.9 Ydych chi wedi defnyddio unrhyw fynegai neu gyfeirlyfr?

21	do, heddiw	81	naddo, erioed
103	do, ond nid heddiw		

10. Beth oedd fformat y papurau newydd a ddefnyddiwyd gennych?

149	copïau papur	5	CD-ROM
103	microffilm	1	ar-lein

11. Pa fformat oedd y mwyaf hwylus?

123	copïau papur	9	CD-ROM
64	microffilm	1	ar-lein

12. Ydych chi erioed wedi cael problemau wrth ddefnyddio papurau newydd o unrhyw fformat?

191	naddo	25	do

3. Sylwadau ar yr arolwg

3.1 Pellter teithio

Teithiodd 77% o ddefnyddwyr llai na 20 milltir a theithiodd 17% 20-100 milltir. Teithiodd 4% dros 100 milltir a daeth 1% arall (tri pherson) o'r tu allan i'r Deyrnas Gyfunol.

3.2 Mathau o bapurau newydd a ddefnyddiwyd

Papurau lleol oedd y mwyaf poblogaidd o lawer, a 74% o ddefnyddwyr yn eu darllen. Y categorïau eraill, yn nhrefn poblogrwydd, oedd papurau cenedlaethol Cymreig (28%), papurau cenedlaethol Prydeinig (22%), papurau Cymraeg eu hiaith (11%), papurau nos (3%) a phapurau dydd Sul (3%). Dywedodd 3% eu bod yn darllen mathau eraill o bapurau newydd.

3.3 Cyfnod y papurau newydd

Roedd dosbarthiad eang i oed y papurau a ddefnyddid, ond papurau diweddar oedd y rhai mwyaf poblogaidd. Darllenai 45% o ddefnyddwyr bapurau llai na 20 mlwydd oed, 23% bapurau 20-50 mlwydd oed, 33% bapurau 50-100 mlwydd oed a 18% bapurau dros 100 mlwydd oed.

3.4 Natur yr wybodaeth a geisiwyd

Testunau'r ymchwil yn nhrefn poblogrwydd oedd: hanes lleol (38%), hanes teuluol (26%), ysgrifau coffa (16%), chwaraeon (13%), busnes ac arian (12%), lluniau (11%), trosedd a chyfraith (10%), hysbysebion (8%), hanes t^ (5%). Roedd 13% o ddefnyddwyr yn chwilio am wybodaeth arall, gan enwi materion megis hanes radio, marwolaethau rhyfel, glofeydd, cerddoriaeth, twristiaeth, Eisteddfodau, y lluoedd arfog, haint byd-eang influenza yn 1919 a barddoniaeth.

3.5 Pwrpas yr ymchwil

Diddordeb personol neu deuluol oedd pwrpas y rhan fwyaf o'r ymchwilio (61%). Dywedodd 17% eu bod yn chwilio am wybodaeth ar gyfer rhywun arall. Bwriadai rhai ddefnyddio'r wybodaeth mewn cyhoeddiad (15%) neu sgwrs (11%), mewn ymchwil academaidd (13%) neu ar gyfer gwaith addysgol arall (5%).

3.6 Amlder defnyddio papurau newydd

Roedd 29% o ddarllenwyr yn defnyddio papurau newydd am y tro cyntaf, gan gynnwys 12% a ddywedodd nad oeddynt yn bwriadu defnyddio papurau newydd eto. Disgrifiai 27% o ddarllenwyr eu hunain fel defnyddwyr cyson a 28% fel defnyddwyr achlysurol. Ni atebwyd y cwestiwn gan 16% o ddefnyddwyr.

3.7 Hwylustod defnyddio papur newydd

Roedd defnyddio papurau newydd yn rhwydd i'r rhan fwyaf o bobl, naill ai'n syml (54%) neu'n weddol hawdd (34%). Dim ond 4% ddywedodd bod defnyddio papurau newydd yn anodd, ond dywedodd 6% ei fod yn waith blinedig a diflas.

3.8 Llwyddiant

Dywedodd 87% o bobl iddynt fod yn llwyddiannus yn eu gwaith. Daeth 46% o hyd i'r union beth oedd mewn golwg ganddynt, a daeth 41% o hyd iddo i ryw raddau. Dim ond 7% a fethodd ddod o hyd i'r hyn yr oeddynt yn chwilio amdano. Ni atebwyd y cwestiwn gan 4% o'r ymchwilwyr.

3.9 Mynegeion a chyfeirlyfrau

Dim ond 9% a ddefnyddiodd fynegeion neu gyfeirlyfrau ar ddydd yr arolwg, ond dywedodd 42% arall eu bod wedi'u defnyddio yn y gorffennol. 33% a ddywedodd nad oeddynt erioed wedi defnyddio mynegeion na chyfeirlyfrau, ac ni atebwyd y cwestiwn gan 17%. Mae'n ymddangos mai rhan bach mewn ymchwil bapurau newydd a chwaraeir gan fynegeion a chyfeirlyfrau, efallai oherwydd mai ychydig o rai da sydd ar gael.

3.10 Fformat

Defnyddiai 61% o ddarllenwyr gopïau papur a 42% microffilm. Dim ond 2% a ddefnyddiai CD-ROMs a dim ond 0.5% (un person) ddefnyddiai bapurau newydd ar-lein.

3.11 Hoff fformat

Roedd yn well gan 50% o ymchwilwyr ddefnyddio copïau papur, ac yn well gan 26% ddefnyddio microffilm. Roedd yn well gan 4% CD-ROMs a 0.5% (un person) papurau ar-lein. Ni atebwyd y cwestiwn gan 20% o ddefnyddwyr. Roedd defnyddwyr yn aml yn nodi'r fformat a ddefnyddiwyd ganddynt ar y pryd fel eu hoff fformat. O'r nifer bach o bobl a ddefnyddiai CD-ROMs neu bapurau newydd ar-lein, roedd cyfartaledd uchel yn eu henwi fel eu hoff fformat.

3.12 Problemau

Nid oedd 78% o bobl wedi profi unrhyw broblem wrth ddefnyddio papurau newydd. Roedd 10% wedi cael problemau ac ni atebwyd y cwestiwn gan 12% pellach. Cafwyd y problemau canlynol ym mhob fformat: tudalennau coll neu fylchau yn y rhediad, problemau sicrhau yr argraffiad priodol neu argraffiad cyflawn (e.e. argraffiad Cymreig y News Chronicle), anhawster sicrhau copïau o'r papur. Cafwyd y problemau canlynol gyda microffilm: ffilm aneglur, anhawster gyda'r peiriant darllen microffilm neu'r peiriant darllen ac argraffu. Y prif broblemau gyda chopïau papur oedd bod y cyfrolau yn drwm neu'n lletchwith i'w defnyddio.

IMJ 16.4.02